

ARCHWILIO CYFRIFON 2018/19

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG

GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

GWASANAETH CYDWEITHFA FABWYSIADU Y FRO, Y CYMOEDD A CHAERDYDD

HYSBYSIR TRWY HYN:

1. O Dydd Mawrth 25 Mehefin 2019 tan Dydd Mawrth 23 Gorffennaf 2019 (gan gynnwys y diwrnodau hynny) - rhwng 9.00am a 4.30pm (dydd Llun tan ddydd lau) a rhwng 9.00am a 4.00pm (dydd Gwener) - bydd cyfle i unrhyw un archwilio a chopio cyfrifon y Cyngor ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019. Bydd holl lyfrau, gweithredoedd, biliau, talebau a derbynebaw cysylltiedig ar gael yn yr un modd, a gellir manteisio ar y cynnig drwy wneud cais i Adnoddau, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri.
2. O 24 Gorffennaf 2019 ymlaen, rhwng 9.00am ac 4.30pm ac wedi hynny tan ddiwedd yr archwiliad, bydd cynrychiolydd o'r Archwilydd (Swyddfa Archwilio Cymru) ar ran, yr Archwilydd Cyffredinol, (Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ), ar gael i ateb unrhyw gwestiynau am y cyfrifon sydd gan unrhyw etholwr Llywodraeth Leol ar gyfer yr ardal y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hi. Caiff unrhyw etholwr neu'i gynrychiolydd ddod â gwrthwynebiadau gerbron yr Archwilydd am unrhyw un o'r cyfrifon mewn perthynas â'r canlynol
 - (i) unrhyw fater y gallai'r Archwilydd ei drin o dan adran 32 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (sef unrhyw eitem anghyfreithlon yn y cyfrifo);
 - (ii) unrhyw fater arall y mae hawl i'r Archwilydd gyflwyno adroddiad amdano er lles y cyhoedd o dan adran 22 o'r Ddeddf
3. Ni fydd yn bosibl gwrthwynebu unrhyw fater heb roi rhybudd ysgrifenedig yn gyntaf i'r Archwilydd Penodedig ac egluro sail y gwrthwynebiad, a dylid anfon copi o'r rhybudd hwnnw at Reolwr-gyfarwyddwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri, sef y cyngor sy'n destun archwiliad cyfrifon ar hyn o bryd.

Dyddiedig 11 Mehefin 2019

Rob Thomas

Rheolwr Gyfarwyddwr

Swyddfeydd Dinesig

Heol Holltwn

Y Barri

CF63 4RU

